



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	10 Tachwedd 2021
TEITL	Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad 2il Chwarter
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Mae'r adolygiad 2il chwarter yn amcangyfrif tanwariant net o (£79,720), yn bennaf yn sgil arbediad ar y gyllideb costau teithio craidd.
- 1.2 Mae effaith Covid-19 yn parhau i effeithio ar benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr** **Chwarter 2: tanwariant (£62,691) Chwarter 1: niwtral**

Rhagwelir sefyllfa o danwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 21/22 yn bennaf oherwydd trosiant staff, ynghyd ag arbediad bychan ar gostau eraill sydd yn gysylltiedig â staff (hyfforddiant, hysbysebu a.y.y.b)

2.2 **Adeilad:** **Chwarter 2: gorwariant £58,833 Chwarter 1: gorwariant £24,514**

Mae'r gyllideb yma yn ddibynnol ar incwm allanol a defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol fel rhan ohono. Yn sgil y pandemig mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu mabwysiadu, gyda llawer mwy o weithio o bellter, a chyfarfodydd rhithiol.

Nid yw swyddogion GwE yn ôl yn y swyddfa ar hyn o bryd, ond mae'n bosib bydd hyn yn newid cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fe adroddir ar ddiffyg incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ei gyfanrwydd, gan nad oes unrhyw ddefnydd o ystafelloedd GwE wedi ei wneud o Ebrill hyd at Hydref, a ni ragwelir ddefnydd yn y dyfodol agos.

2.3 **Cludiant:** **Chwarter 2: tanwariant (£75,862) Chwarter 1: tanwariant (£73,319)**

Dim newid o sylwedd i'r hyn a adroddwyd yn Chwarter 1, gyda ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn, ond ddim i'r un raddfa a chyn yr argyfwng Covid. Bydd y pennawd yn destun adolygiad ar ffyrdd newydd o weithio.

3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2021/22 oedd £563,530.

3.2 Yn seiliedig ar rhagolygon y sefyllfa bresennol fe amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £643,250 ar ddiwedd 2021/22, yn dilyn ychwanegiad y tanwariant o £79,720 a ragwelir uchod.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad 2il Chwarter.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.